**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD/0282/14

Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA9

31 Ionawr 2014

Annwyl Darren,

**ADRODDIAD (4) 26-13 Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS GWEITHREDU'R FFRAMWAITH CENEDLAETHOL AR GYFER GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG – YMATEB I'R ADRODDIAD**

Mae'n bleser gen i amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod. Bydd yn cael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol yr aethoch at i gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 10 argymhelliad ynddo.

**Argymhelliad 1** – ***Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu effaith diwygio'r offeryn cefnogi penderfyniadau ar y bobl hynny a sgoriwyd o dan yr offeryn cefnogi penderfyniadau blaenorol.***

***Derbyn***

- Y prif wahaniaeth rhwng yr Offeryn Cefnogi Penderfyniadau (DST) presennol yng Nghymru a'r offeryn y cynigir ei ddefnyddio yn y Fframwaith diwygiedig yw'r potensial am sgoriau uwch yn y meysydd sy'n ymwneud ag ymddygiad a gwybyddiaeth. Awgrymwyd y gallai unigolion â dementia fod o dan anfantais gyda'r DST presennol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thri bwrdd iechyd yn ystod cyfnod ymgynghori'r Fframwaith i asesu effaith rhoi'r DST newydd ar waith.

**Argymhelliad 2** – ***Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn, ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd i sicrhau bod hyn yn arwain at welliant.***

***Derbyn***

- Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i ddatblygu rhaglen hyfforddi. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwaith o ystyried p'un a yw unigolion yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP) y GIG yn cyd-fynd â chynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion o'r ysbyty a phrosesau asesu cymunedol ehangach. Bydd yn atgyfnerthu canllawiau arfer cyfredol fel 'Trosglwyddo'r Baton' a '10 Newid Uchel Eu Heffaith ar gyfer Gofal Cymhleth'. Bydd y rhaglen yn cynnwys gweithdai aml-asiantaeth, ynghyd â phecyn 'gloywi' e-ddysgu. Caiff ei lansio gyda'r Fframwaith diwygiedig yn haf 2014 fel rhaglen dreigl. Bydd y niferoedd sy'n dechrau hyfforddi yn un o ddangosyddion y Fframwaith Perfformiad a bwriedir cynnig cymhelliannau pellach drwy fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel mesur uniongyrchol, disgwylir i bob aelod o staff sy'n rheolaidd yn asesu pwy sy'n gymwys ar gyfer GIP gael hyfforddiant diweddaru ar y Fframwaith newydd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

- Byddwn yn cynnig cymorth gwell ac yn cyfathrebu â'r rheini sy'n cyflwyno'r trefniadau GIP diwygiedig drwy Ganllawiau ar-lein, cylchlythyrau chwarterol, fforwm ar y we, a chynhadledd flynyddol i rannu dysgu. Cynhelir y gynhadledd yn yr hydref.

- Bydd y gwaith cyffredinol o wella gwasanaethau yn cael ei fonitro a'i gofnodi o dan y trefniadau fframwaith partneriaeth newydd. Bydd yr adroddiad cyntaf ar gael ym mis Medi.

**Argymhelliad 3 - *Rydym yn nodi dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod prosesau adolygu cymheiriaid ar waith i'w cynnal ochr yn ochr â'r defnydd o offeryn hunanasesu ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r prosesau hyn i sicrhau eu bod yn cyflawni eu nod.***

***Derbyn***

- Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso proses hunanasesu ac ymarfer Adolygiad gan Gymheiriaid. Bydd hyn yn rhan o'r fframwaith perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd gofyn i bob Bwrdd Iechyd Lleol (BILlau) adrodd yn ei erbyn.

- Bydd swyddogion gweithredol a enwebir o bob BILl yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'w Byrddau ac yn rhannu'r canfyddiadau hynny gyda Llywodraeth Cymru.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn coladu adroddiad blynyddol cenedlaethol, a chyhoeddir y cyntaf o'r rhain yn yr hydref. Bydd yn cynnwys yr offeryn hunanasesu, ymarfer adolygiad gan gymheiriaid a fframwaith perfformiad. Caiff y canfyddiadau eu rhannu mewn Cynhadledd Genedlaethol a fydd hefyd yn rhan o drefniant i helpu i wella gwasanaethau.

**Argymhelliad 4 - *Rydym yn pryderu bod yr hawliadau'n cael eu trin mewn trefn gronolegol yn unol â'r dyddiad y dônt i law. Credwn nad yw hyn yn ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol hawlwyr. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried blaenoriaethu ceisiadau yn ôl amgylchiadau unigolion a theuluoedd.***

***Derbyn yn Rhannol***

- Ni fyddai'n ymarferol blaenoriaethu achosion yn rheolaidd yn y ffordd y mae'r Pwyllgor yn ei chynnig. Byddai'n rhoi mwy o faich ar y rheini sy'n cyflwyno hawliadau a'r rheini sy'n adolygu hawliadau. Byddai hefyd yn anodd i asesu blaenoriaeth un achos o'i gymharu ag eraill.

- Fodd bynnag, mae trefniant sy’n rhan o’r broses sydd wedi'i mabwysiadu gan Brosiect Powys yn caniatáu i hawlwyr ofyn i'w hawliadau gael eu sbarduno mewn amgylchiadau arbennig. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys caledi ariannol difrifol neu ddiagnosis o salwch angheuol.

- Bydd ein Fframwaith diwygiedig yn sicrhau bod dull presennol Prosiect Powys o sbarduno'r achosion eithriadol hyn yn cael ei ymestyn i'r rheini a reolir gan y BILlau unigol.

- Mae'n trefniadau diwygiedig yn parhau i gynnig ymdrin â'r rhan fwyaf o hawliadau mewn trefn gronolegol, gan fod modd ymdrin â'r mwyafrif o achosion drwy drefniant rheoli prosiect o fewn yr amserlenni ar gyfer cwblhau. Hyd yn hyn, barnwyd mai dyma'r ffordd decaf o reoli'r hawliadau wrth iddynt ddod i law.

- Mae'n Fframwaith newydd yn gosod y disgwyliad na fydd yn cymryd mwy na dwy flynedd i gwblhau hawliad o'i ddyddiad cyflwyno. Bydd yn nodi'r amgylchiadau lle ceir sbarduno hawliadau y mae BILlau unigol yn ymdrin â nhw, yn unol â'r rheini y mae Prosiect Powys yn ymdrin â nhw.

**Argymhelliad 5 - *Rydym yn credu bod nifer o amheuon am y dull presennol o gynnwys unigolion a'u teuluoedd yn y broses asesu Rydym yn argymell bod angen dull rhagweithiol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r rhai y mae ei hangen arnynt, gan eu galluogi i herio penderfyniadau ar gymhwysedd. Dylai gwybodaeth o'r fath fod yn glir ac yn syml.***

**Derbyn**

- Mae'r canllawiau diwygiedig yn pwysleisio o'r newydd yr angen i ymgysylltu a chydgynhyrchu gydag unigolion a'u teuluoedd/cynrychiolwyr.

- Mae amrywiaeth o daflenni gwybodaeth Saesneg clir wedi cael eu datblygu ac maent yn cael eu profi ar hyn o bryd gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Byddant ar gael i'r cyhoedd o fis Mehefin 2014 drwy'r BILlau ac ar y wefan. Mae enghreifftiau o'r taflenni hyn yn cynnwys

    - Taflen Gwybodaeth GIP i'r Cyhoedd;
    - ‘Preparing you for a CHC Eligibility Meeting’; a
    - “What Having a CHC Care Package Means for You”

- Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'n clir bod angen rhoi copi o grynodeb y penderfyniad i'r person a/neu ei gynrychiolydd ynghylch a yw'r person yn gymwys, sy'n cynnwys sail resymegol glir yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

**Argymhelliad 6 - *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed hyd yma gan y Prosiect Cenedlaethol o ran clirio hawliadau, yn adolygu a yw lefelau staffio yn ddigonol ac yn ystyried gwella lefelau cadw staff i fodloni'r dyddiad terfyn, sef Mehefin 2014.***

***Derbyn***

- Mae tîm y Prosiect Cenedlaethol (Powys) wedi rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod digon o staff ar gael i fodloni'r dyddiad terfyn i adolygu pob achos erbyn mis Mehefin 2014. Caiff hyn ei ategu gan yr wybodaeth gyfredol ar berfformiad sy'n nodi yr adolygir achosion erbyn mis Ebrill 2014.

- Mae swyddi gwag sydd wedi codi yn y tîm wedi cael eu llenwi'n gyflym ac nid yw hyn wedi effeithio ar berfformiad yn erbyn y targedau misol disgwyliedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd misol gyda thîm Prosiect Powys i sicrhau bod hyn yn parhau, ac mae'n fodlon bod digon o staff ar gael o hyd i fodloni dyddiad terfyn mis Mehefin 2014.

- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth a chyngor prosiect ymarferol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithredol Cenedlaethol, sy'n goruchwylio cwblhau’r holl adolygiadau ôl-weithredol. Disgwylir iddo wneud ei penderfyniad y mis hwn ynghylch a ddylid cadw'r Prosiect Cenedlaethol i helpu i ymdrin â'r holl hawliadau sydd wedi dod i law ers mis Awst 2010. Os cytunir, bydd hyn yn lleihau'r peryglon ynghylch cadw staff drwy sicrhau swyddi yn yr hirdymor.

**Argymhelliad 7** - ***Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cynnydd interim i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar glirio hawliadau ym mis Mawrth 2014, ac yn rhoi diweddariad pellach ym mis Medi 2014 ar ôl dyddiad terfyn Mehefin 2014.***

***Derbyn***

- Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cael diweddariadau ar gynnydd ym mis Mawrth a mis Medi 2014.

- Bydd y diweddariadau hyn yn dangos perfformiad y Prosiect yn erbyn ei dargedau. Y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Prosiect Powys yw ei fod yn disgwyl adolygu'r holl hawliadau erbyn mis Ebrill cyn dyddiad terfyn mis Mehefin 2014.

- Rhagwelir y bydd y mwyafrif helaeth o'r hawliadau yn cael eu cwblhau (gan gynnwys panelau adolygu a negodi lle bo angen) erbyn mis Mehefin. Gallai gymryd mwy o amser i gwblhau nifer fechan ohonynt, er enghraifft lle mae'n cymryd amser hir i negodi, ond rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu cwblhau cyn i'r Pwyllgor gael y diweddariad ym mis Medi.

**Argymhelliad 8 -** ***Rydym yn argymell nad yw'r Prosiect Cenedlaethol yn cael ei ddiddymu tan i'r ôl-groniad o geisiadau gael ei glirio.***

***Derbyn yn Rhannol***

- Rydyn ni'n cydweithredu gyda Byrddau Iechyd Lleol i gytuno ar y model mwyaf effeithiol ar gyfer ymdrin â'r holl hawliadau ôl-weithredol. Amlinellir y dull arfaethedig o dan Argymhelliad 10.

**Argymhelliad 9 -** ***Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gosod pwynt cau ar hawliadau, sef dwy flynedd i'r dyddiad y daw hawliad i law. Credwn y dylid ymdrin â phob hawliad o fewn dwy flynedd, fan bellaf. Rydym yn argymell bod diweddariad ar ganlyniad yr ystyriaeth hon yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ôl cwblhau'r gwaith hwn.***

***Derbyn***

- Mae'r cynnig i ymdrin â phob hawliad o fewn dwy flynedd wedi'i gynnwys yn y Fframwaith diwygiedig sy'n destun ymgynghoriad ffurfiol ar hyn o bryd. Ar ôl gwneud penderfyniad cadarn, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Pwyllgor. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl uchafswm cyfnod ar gyfer cwblhau hawliadau.

**Argymhelliad 10 -** ***Rydym yn pryderu am y sefyllfa ar ôl mis Mehefin 2014 o ystyried y diffyg eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran a fydd byrddau iechyd yn gyfrifol am glirio hawliadau neu a fydd un dull yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru naill ai'n datblygu cynllun cydlynol ar gyfer clirio'r ôl-groniad o achosion, neu'n ystyried ymhellach a ddylai'r Bwrdd Cenedlaethol ymdrin â hawliadau y mae byrddau iechyd yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Mehefin 2014, ac egluro ei bwriadau ynghylch hyn.***

***Derbyn yn Rhannol***

- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithredol wedi cael ei sefydlu yn ôl argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru a bydd yn goruchwylio'r gwaith o brosesu'r holl hawliadau ôl-weithredol (Prosiect Powys a Bwrdd Iechyd ar ôl

2010). Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cadarnhau'r dull gweithredu y cytunir arno.

- Mae'r model sy'n cael ei drafod yn cynnwys cadw Prosiect Powys, gan drosglwyddo i drefniadau lleol cynaliadwy. I ddechrau, bydd y Prosiect yn helpu i glirio'r ôl-groniad o hawliadau ac yna bydd yn symud ymlaen i gynnig swyddogaeth gydgysylltu ganolog i sicrhau cysondeb a rhannu dysgu. Bydd trefniadau perfformiad yn dilyn yr un egwyddorion trwyadl ag y mae'r Prosiect yn eu defnyddio i sicrhau bod hawliadau'n cael eu cwblhau o fewn dwy flynedd.

- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth a chyngor prosiect ymarferol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Bydd yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau gofynnol i fodloni'r dyddiad terfyn y cytunir arno ar gyfer cwblhau.